

# NEWYDDION Aber

*Aberystwyth...  
un o'r llefydd gorau yn y byd i fod yn fyfyrwr*

RHIFYN 10  
Tachwedd 2012



THE QUEEN'S  
ANNIVERSARY PRIZES  
FOR HIGHER AND FURTHER EDUCATION  
2009

4 Dyddio radio  
carbon



5 Dyddiaduron coll



7 Sêr  
gwyddoniaeth



10 Pwysigrwydd  
heneiddio'n  
llawn bwrllwm



15 Y fasnach  
mewn pobl



## Bywyd newydd i'r Hen Goleg

Mae'r Brifysgol yn gwahodd tendrau ar gyfer y gwaith o gwblhau astudiaeth dichonoldeb ar gyfer ailddatblygu'r Hen Goleg.

Yn ogystal, bydd yr astudiaeth yn ystyried eiddo'r Brifysgol yn 1, 9 a 10 Maes Lowri, sydd yn cynnwys Neuadd Joseph Parry, a rhif 1 a 2 Rhodfa'r Môr, a fu'n gartref i Ganolfan Feddygol y Brifysgol am flynyddoedd.

Ymhlith y syniadau a gynigwyd y mae datblygu 'ardal ddiwylliannol' yn seiliedig ar yr Hen Goleg, Canolfan Uwchraddedig yn darparu gofod dysgu, addysgu ac astudio o safon byd, oriel gelf, ac adnoddau darlithio a pherfformio.

Mae'r astudiaeth ddichonoldeb yn cynrychioli buddsoddiad o £60,000, gyda hanner yn cael ei ariannu gan Gronfa Adfywio Ardal Aberystwyth Llywodraeth Cymru a hanner gan y Brifysgol.

Dywedodd yr Is-Ganghellor, yr Athro April McMahon: "Dengys ymchwil yn gyson bod Prifysgol Aberystwyth yn cael ei chydabod fel un o'r lleoliadau gorau i astudio ar gyfer israddedigion."

"Rydym eisiau adeiladu ar hynny a datblygu canolfan uwchraddedig o'r radd flaenaf. Fodd bynnag, dylai'r Hen Goleg gael ffocws cymunedol yn ogystal ag un academiaidd. Rydym eisiau darparu adnodd ar gyfer trigolion ac ymwelwyr yn ogystal â myfyrwyr a staff. Ein gweledigaeth yw cyfleusterau dysgu o'r radd flaenaf, gofod arddangos, siop y Brifysgol a phwynt cyswllt cyntaf ar gyfer busnesau lleol - gan ddod â'r dref a'r Brifysgol at ei gilydd mewn ardal ddiwylliannol newydd."

Mae disgwyl i'r astudiaeth ddichonoldeb terfynol gael ei chyflwyno i'r Brifysgol ym mis Mawrth 2013.

Cyhoeddir **NEWYDDION** Aber gan **Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.

Ffon 01970 622946.

E-bost: [cyfathrebu@aber.ac.uk](mailto:cyfathrebu@aber.ac.uk)

Bydd y rhifyn nesaf o **NEWYDDION** Aber ar gael ym mis **Ionawr 2013**.

Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw dydd **Llun 3ydd Rhagfyr**.

# Cefnogaeth i'r Athrofeydd newydd

Cafwydsêl bendith unfrydol gany Senedd a Chyngor y Brifysgol i'r cynllun ail-gyflunio academiaidd, fydd yn golygu sefydlu saith Athrofa ar draws y Brifysgol, gyda'r Adrannau presennol yn parhau oddi mewn iddynt. Bydd sefydlu Athrofeydd yn sicrhau fod gan y Brifysgol fwy o gysondeb ar draws Adrannau, yn hwyluso prosesau cynllunio ac yn cynnig cyfleoedd gwych i ddatblygu gyrfa i staff gweinyddol.


Mae'r Brifysgol nawr yn dechrau ar gyfnod o gynllunio sut y bydd yr Athrofeydd yn gweithio, adnabod yr elfennau allweddol sydd eu hangen o fewn y strwythurau newydd, a bydd cyfle i gydweithwyr drafod beth fydd y manau cyffwrdd gydag ardaloedd cymorth. Elfen holl bwysig o'r broses fydd penodi Cyfarwyddwyr a'r Rheolwyr i arwain yr Athrofeydd newydd. Bydd y swyddi yma'n cael eu hysbysebu'n fewnol yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn y cyfamser, mae Athrofa'r Gwyddorau Dynol, sy'n cwmpasu Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, eisoes wedi dechrau ar ei gwaith dan gyfarwyddiaeth Dr Kate Bullen - gweler Pobl Aber ar dudalen 13.

Yn sgil sefydlu'r Athrofeydd, bydd yr Adrannau canlynol yn cydweithio o'r cyntaf o Awst 2013:

1. IBERS (Sefydliad Y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Chefn Gwlad)
2. Seicoleg; Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (=Athrofa'r Gwyddorau Dynol)
3. Sefydliad Mathemateg a Ffiseg; Cyfrifiadureg
4. Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear; Gwleidyddiaeth Ryngwladol; Hanes a Hanes Cymru
5. Y Gyfraith a Throsedddeg; Rheolaeth a Busnes; Astudiaethau Gwybodaeth
6. Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu; Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol; yr Ysgol Gelf; y Gymraeg; Canolfan y Celfyddydau; Ieithoedd Ewropeaidd a'r Ganolfan Gerdd
7. Yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes; y Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academiaidd; Canolfan Graddedigion; y Ganolfan Saesneg Rhyngwladol, a chymorth dysgu i fyfyrwyr.

## Silff lyfrau



### Australian Art and Artists in London, 1950-1965: An Antipodean Summer

Amlygir gweledigaeth glir o hunaniaeth Awstralaidd gan artistiaid alltud o Awstralia yn y gyfrol arobryn newydd hon gan Dr Simon Piers, Darlithydd yn yr Ysgol Gelf. Enillodd y gyfrol, sy'n benllanw dros ddeng mlynedd o ymchwil yn canolbwyntio ar ganfyddiadau Prydeinig o gelf a hunaniaeth Awstralaidd, wobwr awdur gan Ganolfan Paul Mellon ar gyfer Astudiaethau

Celf Prydeinig.

### Losing an Empire and Finding a Role: Britain, the USA, NATO and Nuclear Weapons, 1964-70

Mae'r gyfrol hon gan Dr Kristan Stoddart, Darlithydd yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, yn cywiro nifer o gam-ganfyddiadau cyhoeddus am Brydain, yr Unol Daleithiau a NATO yn y maes arfau niwclear. Yn seiliedig ar y dystiolaeth ddatguddiedig ddiweddaraf a gasglwyd yn y DU ac UDA, mae Stoddart yn dangos fod Prydain, er gwaethaf iddi golli ei hymerodraeth, wedi canfod rôl - rôl yn seiliedig ar amddiffyn ardal NATO ar draul ymrwymadau all-Ewropeaidd ar raddfa fawr. Y dull pennaf o gyflawni hyn oedd drwy arfau niwclear gyda gallu uwchraddiedig, sef Polaris.



PRIFYSGOL  
**ABERYSTWYTH**  
UNIVERSITY

[www.aber.ac.uk/sportscentre](http://www.aber.ac.uk/sportscentre)

# GANOLFAN CHWARAEON

## Ffit ac Iach 2013

O **7-27 Ionawr** bydd y Ganolfan Chwaraeon unwaith eto'n cynnal "Ffit ac Iach", rhaglen mis o hyd o ddigwyddiadau'n cynnig cyfle i ganfod ffyrdd i wella eich iechyd a'ch ffitrwydd.

Popeth o badminton i hyfforddiant kettlebell, profion ffitrwydd i raglen colli pwysau - bydd rhywbeth ar gael i bawb.

**Mwynhewch eich iechyd yn 2013!**

**I gael rhaŵr o wybodaeth cysylltwch â'r Ganolfan Chwaraeon:**

Ffôn: 01970 622280  
E-bost: [sports@aber.ac.uk](mailto:sports@aber.ac.uk)





## COLOFN YR IS-GANGHELLOR

Wrth i mi ysgrifennu hwn, mae Cyngor y Brifysgol newydd gymeradwyo a chadarnhau'n unfrydol ein Cynllun Strategol ar gyfer 2012-17. Rydym ni'n symud ymlaen i gyfnod newydd i'r Brifysgol - ac mae'r Cynllun Strategol yn dangos y llwybr y bydd angen i ni ei ddilyn i wireddu ein nodau uchelgeisiol.

### Felly, beth yw'r pethau gorau am y Cynllun Strategol newydd?

Yn gyntaf oll, ac yn bwysicaf, nid fi a'i hysgrifennodd; nid y Swyddogion Gweithredol a'i hysgrifennodd; nid yr Adranau Cynllunio a Chyfathrebu a'i hysgrifennodd. Wrth gwrs, buom ni'n cyfrannu syniadau ac yn cynnig geiriau. Ond gwnaethoch chithau hynny hefyd. Mae'r syniadau allweddol yn y cynllun wedi dod gan fyfyrwyr, staff a Chorff Llywodraethu'r Brifysgol, drwy'r sesiynau 'Siapio ein Dyfodol' a negeseuon e-bost, trafodaethau a chyfarfodydd grŵp bach yn eu sgil. Nid dogfen sydd wedi'i llunio gan unigolyn neu grŵp bach o bobl sy'n meddwl mai nhw sy'n gwybod orau am gyfeiriad y Brifysgol yn y dyfodol yw hon; yn hytrach mae'n adlewyrchiad gwir o'r egni, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad sy'n nodweddu Aber.

Yn ail, mae'r Cynllun Strategol yn ymwneud â phobl, oherwydd busnes pobl ydym ni. Mae'n dweud yn glir ein bod yn adeiladu ar dalent heddiw i sicrhau llwyddiant y dyfodol - 'mae ein gweledigaeth ar gyfer Aberystwyth 2017 yn bosibl oherwydd y bobl sy'n ymgorffori cryfderau a gwerthoedd Aberystwyth 2012'. Ac yn fy ngholofn ddiwethaf yn 'Newyddion Aber' soniais am y gwerthoedd hynny, i Brifysgol uchelgeisiol, â phobl yn ganolog iddi, sy'n rhyngwladol, yn seiliedig yn y gymuned, yn gydweithredol, agored a chyfrifol.

Yn olaf mae'r Cynllun wedi'i drefnu o gylch chwe nod allweddol. Yr hyn sy'n bwysig i Aberystwyth yw creu cyfleoedd; ymchwil â rhagoriaeth sy'n cael effaith; addysgu sy'n ysbrydoli; ymgysylltu â'r byd; gweithio mewn partneriaeth; a buddsoddi yn ein dyfodol. Rydym ni wedi gosod ystod o strategaethau a thargedau i bob un o'r amcanion hyn ar gyfer 2017, gyda rhai o'r rhain yn heriol iawn. Gofynnodd chi i ni fod yn uchelgeisiol, ac mae pawb sydd wedi cyfrannu targedau i'r Brifysgol wedi cymryd hynny i galon.

Does dim ots a ydych chi'n fyfyrwr neu'n aelod o staff, neu ba swydd rydych chi'n ei gwneud yn y Brifysgol - mae ffyrdd i chi ein helpu ni i gwrdd â'r targedau pwysig hyn a gwneud Aber yn llwyddiant. Rydym ni am weld unigolion ac adrannau'n ymgysylltu â'r Cynllun, ac yn ystyried pa amcanion a thargedau sy'n flaenoriaeth i chi. Mae'r Cynllun Strategol yn ddathliad o'r hyn rydym ni'n ei wneud yn dda nawr, ac yn fap i'r trywydd i ni ei ddilyn dros y pum mlynedd nesaf. Rwyf i'n eich annog chi i'w ddarllen a'i drafod; gallwch ei weld yn [www.aber.ac.uk/Strategicplan](http://www.aber.ac.uk/Strategicplan), a byddwn ni hefyd yn cynnal digwyddiadau i'w lansio lle gallwch glywed rhagor.

Roedd cyfarfod y Cyngor ar 5 Tachwedd yn gadarnhaol ac yn fywiog iawn. Nid yn unig y gwelwom ni'r Cynllun Strategol yn cael ei dderbyn, ond cymeradwyodd y Cyngor hefyd ein Rheoliadau Ariannol newydd, sy'n weithredol ar unwaith ac y gellir eu canfod ar dudalennau gwe'r Swyddfa Gyllid; cawsom gymeradwyaeth i ddatblygu ein Strategaeth Ystadau newydd, fydd yn destun ymgynghoriad dros yr wythnosau nesaf; a chytunwyd ar y symudiad i saith Sefydliad academiaidd newydd, cam hanfodol os ydym ni am wireddu'r Cynllun Strategol newydd. Rwyf i wrth fy modd yn adrodd y camau cadarnhaol hyn i gyd. Nawr drosodd atoch chi.

### Yr Athro April McMahon, Is-ganghellor

## Darlith Flynyddol CACDRh

Ymwelodd y Farwnes Eliza Manningham-Buller o Northampton, Cyfarwyddwr Cyffredinol MI5 (2002-7) a Chadeirydd Cyngor Coleg Imperial Llundain, â'r Brifysgol ar 7 Tachwedd er mwyn traddodi Darlith Flynyddol y Ganolfan Astudiaethau Cudd-wybodaeth a Diogelwch Rhyngwladol - CACDRh.

Yn ystod ei ddarlith, bu Eliza Manningham-Buller yn trafod rhai o'r materion a wynebodd yn ystod ei chyfnod fel pennaeth Gwasanaethau Diogelwch y Deyrnas Gyfunol ac yna atebodd

amrywiaeth o gwestiynau o'r gynulleidfa.

Dyweddodd yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor, a gynhaliodd y ddarlith ar y cyd â Llywydd y Brifysgol, Syr Emyr Jones Parry: "Roedd y Brifysgol yn falch iawn o groesawu Eliza Manningham-Buller i'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Rydym yn hynod ddiolchgar iddi am rannu ei phrofiad a'i gwybodaeth am yr heriau oedd yn eu hwynebu hi fel arweinydd, ac am gyflwyniad mor ddiddorol.



## Ail dymor i'r Llywydd

Penodwyd Syr Emyr Jones Parry i wasanaethu am ail gyfnod fel Llywydd Prifysgol Aberystwyth.

Dechreuodd Syr Emyr, sydd yn gyn-Gynrychiolydd Parhaol y Deyrnas Gyfunol i'r Cenhedloedd Unedig, ar



y swydd ym mis Ionawr 2008 ac mae ei gyfnod pum mlynedd yn dod i ben ar ddiwedd mis Rhagfyr. Cafodd ei benodiad am ail dymor ei gymeradwyo mewn cyfarfod o Gyngor y Brifysgol ar ddydd Llun 5 Tachwedd.

Dyweddodd Syr Emyr: "Mae'r fraint hon yn hyfrydwch ac yn anrhydedd, ac rwy'n edrych ymlaen at gynorthwyo i arwain y Brifysgol drwy'r cyfnod cyffrous nesaf."

Dyweddodd Is-Ganghellor y Brifysgol, yr Athro April McMahon: "Rwyf wrth fy modd fod Llywyddiaeth Syr Emyr wedi ei hymestyn am gyfnod o bum mlynedd; cafodd hwn gefnogaeth unfrydol Cyngor y Brifysgol.

"Mae arweinyddiaeth Syr Emyr wedi bod yn gryf ag iddi weledigaeth. Mae'n uchel ei barch ymysg ein myfyrwyr a'n staff, ac rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gydag ef wrth ddatblygu ein Prifysgol ymhellach fel arweinydd hyderus ac uchelgeisiol o Addysg Uwch yng Nghymru."



Ch i'r Dd: Sir Emyr Jones Parry, Dr Jenny Mathers, y Farwnes Eliza Manningham-Buller, yr Athro April McMahon, a Dr R. Gerald Hughes

## Dyddio radio carbon

Mae Dr Henry Lamb o Sefydliad Daeryddiaeth a Gwyddorau Daear (SDGD) wedi bod yn gweithio ar brosiect sydd wedi galluogi gwyddonwyr i wella'n sylweddol fanylder a chywirdeb techneg ddyddio radio carbon.

Defnyddir y broses yn helaeth er mwyn dyddio oedran safleoedd archeolegol, digwyddiadau newid hinsawdd y gorffennol, a newidiadau i'r amgylchedd. Mae wedi darparu dull o ddyddio sy'n gywir hyd at oddeutu 12,000 o flynyddoedd yn ôl ond tu hwnt i hyn, mae'r newidiadau a fu yn yr hinsawdd ar ddiwedd yr oes iâ ddiwethaf wedi'i gwneud hi'n anoddach i gymryd mesuriadau cywir.

Fodd bynnag, mae cyfres o greiddiau - darnau hir o fwd - a gasglwyd o lawr Llyn Suigetsu yn Siapan, ac a ddehonglwyd gan ymchwilydd o'r Deyrnas Gyfunol, gan gynnwys gwyddonwyr o SDGD, wedi darparu cofnod godidog o newid amgylcheddol sydd yn ymestyn yn ôl dros 70,000 o flynyddoedd.

Dr Henry Lamb yw un o bedwar Prif Ymchwilydd y prosiect ac y mae



*Dr Henry Lamb gyda metr o'r craidd a gasglwyd o Llyn Suigetsu. Mae'r creiddiau yn cael eu cadw mewn oergell fawr ar dymheredd o 4°C yn SDGD.*

wedi chwarae rhan allweddol yn y dehongli a wnaed o'r creiddiau gwaddod. Gan ddefnyddio dulliau newydd ynghyd â sganwr creiddiau pelydr-x uwch-dechnoleg, ymgymrodd Dr Lamb a'r ymchwilydd uwch-ddoethurol Dr Mike Marshall â'r dasg o gyfri a chofnodi nodweddion yr haenau blynyddol yng nghreiddiau Llyn Suigetsu, nodweddion sydd yn rhy fân i'w gweld gyda llygad dyn.

**FFAIR  
GREFFTAU AC ANRHEGION  
Y GAELAF**

**26 Hydref i 23 Rhagfyr 2012  
2 i 6 Ionawr 2013**

**Ar Agor**

**10am – 8pm  
Llun–Sadwrn**

**12 – 5.30pm  
Dydd Sul**

**01970 622895**  
www.aber.ac.uk/artscentre

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU  
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

## IBERS yn lansio Partneriaeth Hyfforddiant Uwch

Fe lansiodd IBERS eu rhaglen hyfforddi newydd, y Bartneriaeth Hyfforddiant Uwch (ATP), yn Livestock 2012 yn yr NEC yn Birmingham ar 4 Medi.

Mae'r ATP Cynhyrchu Bwyd Cynaliadwy ac Effeithlon yn un o bedair rhaglen hyfforddiant sy'n cael eu hariannu gan BBSRC i weithio tuag at ddiogelwch bwyd byd-eang. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys IBERS, Prifysgol Bangor a'r Sefydliad Cenedlaethol Botaneg Amaethyddol (NIAB).

Mae'r ATP yn anelu i ddarparu hyfforddiant ar lefel uchel yn uniongyrchol i'r sector amaeth yn y DG, gan ganolbwyntio ar yr angen am fwy o fwyd cynaliadwy a chyflenwadau effeithlon yn y dyfodol. Yn ogystal â darparu cwrs cyntaf IBERS drwy ddsygu o bell, mae'r ATP yn cynnig cyfle i fyfyrwyr gael MSc sydd wedi ei ddilysu ar y cyd gan Aberystwyth a Phrifysgol Bangor, y cyntaf o'i fath fel rhan o'r Gynghrair Strategol.

Am fwy o wybodaeth gweler [www.atp-pasture.org.uk](http://www.atp-pasture.org.uk)

## Effaith seicolegol cancr

Mae ymchwil gan yr Adran Seicoleg i effeithiau seicolegol cancr y pidyn ar wrywod wedi'i ddefnyddio ar gyfer datblygu gwefan newydd.

Mae'r wefan arobryn Healthtalkonline ([www.healthtalkonline.org](http://www.healthtalkonline.org)) yn cynnwys adran newydd sy'n ymdrin â chancr y pidyn, cyflwr nad yw'n cael ei drafod yn aml, ond un lle mae 400-600 o achosion newydd bob blwyddyn yn y DG.

Dr Kate Bullen, Pennaeth yr Adran Seicoleg, sydd wedi bod yn arwain y gwaith. Cyfrannodd mwy na 70 o ddynion o Gymru a Lloegr at yr astudiaeth a gyllidwyd gan ysgoloriaeth ddoethuriaeth a chefnogaeth elusennol gan Seiri Rhyddion Cymru.

Dywedodd Dr Bullen: "Mae lansiad adran cancr y pidyn ar y wefan Healthtalkonline yn ganlyniad pwysig i'r gwaith yr ydym wedi bod yn cyfrannu ato yn y maes anodd hwn.

"Mae cancr yn brofiad heriol ar unrhyw adeg ond yn arbennig felly pan fydd y cancr yn anghyffredin, megis cancr y pidyn.

"Rydym yn gwybod o'r ymchwil yma ei bod yn anodd i ddynion siarad am eu teimladau ac felly mae gwefan fel hon yn hynod o ddefnyddiol gan ei bod yn galluogi dynion i deimlo fod ganddynt fwy o reolaeth ac yn llai bregus ar adeg anodd yn eu bywydau."

Mae gan yr Adran Seicoleg nifer o aelodau staff sydd yn ymddiddori mewn materion iechyd sy'n ymwneud â rhyw ac yn ddiweddar cwblhawyd PhD ar effaith o gancr y pidyn ar wrywod.



## NEWYDDION

## Dyddiaduron coll

Mae Robert Meyrick, Pennaeth yr Ysgol Gelf, yn chwilio am ddyddiaduron coll a allai ddarparu cliw hanfodol i darddiad y llun mae llawer o bobl yn credu sydd yn fersiwn gynharach o'r Mona Lisa gan Leonardo da Vinci.

Dyddiaduron yr arbenigwr a'r casglwr celf Prydeinig, Hugh Blaker ydynt. Ystyrid Robert Meyrick fel prif arbenigwr y byd ar Blaker a chafodd ei wahodd i siarad yn nadorchuddiad Mona Lisa Isleworth yng Ngenefa ym mis Medi.

Roedd gan Blaker enw am adnabod Hen Feistri coll. Daeth o hyd i'r llun dadleuol Mona Lisa Isleworth ym mhlasty uchelwr yng Ngwlad yr Haf yn 1913 ac fe'i prynodd. Ond wnaeth Blaker erioed ddatgelu enw'r plasty na'r gwerthwr.

Mae Robert Meyrick yn credu ei bod hi'n bosib iawn fod Blaker wedi cynnwys manylion yn ei ddyddiaduron a fyddai'n caniatáu arbenigwyr i olrhain hanes y portread a sut y daeth i feddiant y teulu o Wlad yr Haf. Mae'n credu y gallai'r dyddiaduron brofi'n allweddol a gosod gwir ddyddiad creu'r fersiwn hon o'r Mona Lisa 150 mlynedd yn gynharach o leiaf.

Honnir i'r dyddiaduron gael eu postio i Washington yn yr Unol Daleithiau yn y 1960au. Fodd bynnag, diflannu wnaethon ac mae'n ymddangos nad oedd y cyfeiriad lle'r anfonwyd hwy yn bodoli.

Yn 2010, mewn ymateb i apel ar ei wefan, danfonwyd dyddiaduron Blaker ar gyfer pum mlynedd olaf ei fywyd at Robert Meyrick gan deulu a ddaeth o hyd iddynt flynnyddoedd yn gynharach mewn siop creiriau yn Gravesend yng Nghaint. Mae'r helpa amdanynt wedi denu sylw cyfryngau'r byd.

Os yw Mona Lisa Isleworth yn ddilys, golyga hyn fod Leonardo da Vinci wedi paentio dwy fersiwn o'r Mona Lisa - fersiwn gynharach a'r fersiwn ddiweddarach eiconig sydd i'w gweld yn y Louvre.



Robert Meyrick gyda Mona Lisa Isleworth

*Aladdin*

**5ed – 19eg Ionawr 2013**

Y Wardens yn cyflwyno ei pantomeim teuluol traddodiadol.

**I gael tocynnau ymwelwch â**  
www.aberystwythartscentre.co.uk/  
family/aladdin

## Gŵyl Farddoniaeth Ryngwladol Gogledd Cymru yn dod i Aberystwyth

Fe wnaeth yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol groesawu grŵp o feirdd Ewropeaidd a oedd yn rhan o Wyl Farddoniaeth Ryngwladol Gogledd Cymru ddechrau mis Hydref.

Mae'r wyl wedi cael ei chynllunio er mwyn codi proffil beirdd a barddones Ewropeaidd yng Nghymru, ac i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwaith ar y cyd drwy gyfieithu. Roedd rhan Aberystwyth o'r wyl yn cynnwys tair sesiwn amrywiol a oedd yn archwilio syniadau o le ac agweddau corfforol mewn barddones.

## Ar fynyddoedd iâ

Mae gwyddonwyr o Aberystwyth wedi bod yn rhan o daith arloesol i'r Arctig er mwyn ymchwilio i gylch bywyd mynyddoedd iâ.



Y llong ymchwil, Gambo, yn yr Arctig. Credyd: James Killingbeck

Bu'r rhewlffegydd, Dr Alun Hubbard (Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear) a'r arbenigwr roboteg, Dr Mark Neal (Adran Cyfrifiadureg), ynghyd ag ymchwilwyr eraill o Aberystwyth a Phrifysgol St Andrews, yn ceisio deall y grymoedd sy'n achosi i fynyddoedd iâ dorri i ffwrdd o'r prif rewlifoedd a'r hyn sy'n digwydd iddynt wrth iddynt arnofio ar y cefnfor.

Mae deall beth sy'n achosi i fynyddoedd iâ ffurfio yn bwysig er mwyn rhagweld faint o iâ fydd yn cael ei ryddhau i foroedd y byd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Ymddangosodd canfyddiadau'r ymchwil ar rewlif Store, yng ngorllewin yr Ynys Las, ar gyfres BBC2, *Operation Iceberg*.

Bydd Dr Hubbard ymhlith grŵp o ymchwilwyr a fydd yn treulio'r gaeaf hwn ar yr iâ môr wrth iddo ffurfio o amgylch rhewlif Store. Bydd hyn yn caniatáu iddynt wneud y mesuriadau gaeaf cyntaf o'r rhewlif yn y fan a'r lle, a sut y mae'n ymateb i'r newid tymor yn yr Arctig.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Dr Hubbard ar gael ar

[www.aber.ac.uk/greenland](http://www.aber.ac.uk/greenland).



Nododd y Swyddfa Ymchwil ddwy flynedd ers ei sefydlu ym mis Hydref. Mae hyn yn cyd-fynd â lleoli tîm y Swyddfa Ymchwil cyfan mewn i ddau le a rennir gyda Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori (GMY). Bydd hyn yn fodd o helpu'r timau i ddatblygu perthynas gryfach fyth.

Gan fyfrio ar y ddwy flynedd aeth heibio, rydym wedi cyflawni llawer sydd wedi cyfrannu at y diwylliant ymchwil yma yn PA. Mae hyn yn parhau gyda mentrau newydd megis datblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr ymchwil trwy fanteisio ar gyfleoedd fel Crwsibl Cymru 2013, sef cystadleuaeth agored ar gyfer academyddion ar ddechrau neu ar ganol eu gyrfa i ennill lle ar un o'r rhaglenni arweinyddiaeth ymchwil gorau sy'n bodoli – cyhoeddir mwy o fanylion cyn y Nadolig.

Mae mentrau fel Crwsibl Cymru yn cyfrannu tuag at ymrwymiad Aberystwyth i'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfaol Ymchwilwyr (ar gael yma [www.vitae.ac.uk/CMS/files/upload/Vitae-Concordat-2011.pdf](http://www.vitae.ac.uk/CMS/files/upload/Vitae-Concordat-2011.pdf)). Mae'r Concordat yn gytundeb rhwng cyllidwyr a chyflogwyr ymchwilwyr yn y DG. Mae'n cwmpasu saith egwyddor gyda'r nod o ddatblygu'r gweithlu o ymchwilwyr a thrwy hynny, gynnal rhagoriaeth ymchwil gan gyflwyno manteision i iechyd, economi a lles y DG.

Dylai pawb sy'n ymwneud â rheoli a chynnal ymchwil yma yn PA fod yn ymwybodol o egwyddorion a gofynion y Concordat ac yn eu gweithredu. Mae croeso i gynrychiolwyr o'r gymuned o ymchwilwyr fynychu cyfarfodydd Grŵp Concordat Ymchwil Aberystwyth er mwyn helpu i lywio gweithgareddau'r Brifysgol i hyrwyddo gweithrediad y Concordat. Mae enghreifftiau o fentrau'r grŵp hwn yn cynnwys datblygu sesiwn sefydlu arbenigol ar gyfer ymchwilwyr ac academyddion newydd a phhecyn sefydlu ar gyfer ymchwilwyr newydd. Gan adeiladu ar lwyddiant y Caffi Ymchwil misol, rydym hefyd yn awyddus i dderbyn syniadau gan y gymuned ymchwil ynghylch ffyrdd eraill o ddod ag ymchwilwyr at ei gilydd a sut y gellir cyfathrebu'n effeithiol â nhw. Ceir manylion ynghylch ein digwyddiadau ar dudalennau gwe Ymchwil y Brifysgol ([www.aber.ac.uk/ymchwil](http://www.aber.ac.uk/ymchwil)).

Mae'r Swyddfa Ymchwil yn cefnogi pob aelod o staff ymchwil a hefyd myfyrwyr sy'n gorffen eu PhD, a allai fod yn ceisio cyllid ymchwil. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Swyddog Datblygu Ymchwil sy'n berthnasol i'ch disgyblaeth chi (manylion ar y dudalen nesaf).

I ymuno â'r Grŵp Concordat Ymchwil, darganfod mwy am ddigwyddiadau neu i rannu unrhyw syniadau, cysylltwch â [ymchwil@aber.ac.uk](mailto:ymchwil@aber.ac.uk)

**Gary Reed**, Pennaeth y Swyddfa Ymchwil

## Ymweliad yr Academi Brydeinig

Ymwelodd Dr Ken Emond, Pennaeth Dyfarniadau Ymchwil yr Academi Brydeinig, â Phrifysgol Aberystwyth ar 12 Hydref i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd ariannu ymchwil gyda'r Academi Brydeinig.

Dros y ddeng mlynedd diwethaf, mae PA wedi llwyddo i ennill dros 80 o grantiau werth tua £500,000 gan y corff cyllido sylweddol yma. Mae'r llwyddiannau diweddar yn cynnwys gwaith 'Genom yr Iaith Gymraeg' yr Athro Patrick Sims Williams, a 'Seliâu mewn cyd-destun lleol'

gan yr Athro Phillipp Schofield.

Os wnaethoch golli cyflwyniad Dr Emond, bydd fideo ar gael yn fuan trwy AberCast - manylion ar wefan y swyddfa Ymchwil ([www.aber.ac.uk/ymchwil](http://www.aber.ac.uk/ymchwil)).

Y dyddiad cau allanol ar gyfer y rownd nesaf o Grantiau Bach yr Academi Brydeinig yw'r 10fed o Ebrill 2013. Mae manylion pellach ar gael yn [www.britac.ac.uk](http://www.britac.ac.uk). Am gymorth gyda'ch cais Academi Brydeinig, cysylltwch â [research@aber.ac.uk](mailto:research@aber.ac.uk) neu eich Swyddog Datblygu Ymchwil perthnasol.

## Y Caffi Ymchwil: Bwydlen newydd wedi ei lansio

Lansiodd yr Athro Martin Jones y rhaglen newydd o gaffis ymchwil ar 10 Hydref. Cyflwynodd Martin ei weledigaeth ar gyfer ymchwil yn PA ôl-REF, gan gynnwys strategaeth y Brifysgol, ei farn ar sut y bydd y Sefydliadau academaidd newydd yn cyfrannu at y strategaeth a phwysigrwydd gweithio mewn ffordd ryngddisgyblaethol. Gyda dros 70 o bobl yn y gynulleidfa a sesiwn holi ac ateb bywiog, mae'r flwyddyn newydd o gaffis wedi dechrau gyda chyffro.

Bydd y caffi nesaf ar y 12fed o Ragfyr pan fydd cyfle i glywed yr Athro Peter Barry o'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol ar Contempo - ymchwil feirniadol-creadigol ar farddoniaeth yn yr amgylchedd; ysgrifennu traws-ddinas a phrosiectau perfformiad.

Nod y caffi yw cael grwpiau ymchwil i gyflwyno eu prosiect a'r heriau maent yn eu hwynebu a ellir eu goresgyn gyda chymorth gan gydweithwyr mewn disgyblaethau eraill. Dewch draw i helpu i ddatrys rhai problemau ymchwil. Cofrestrwch drwy anfon e-bost at [research@aber.ac.uk](mailto:research@aber.ac.uk)



Ch i'r Dd: Dr Guy Baron (derbynnnydd grant DG-America Ladin yr Academi Brydeinig), yr Athro April McMahon, Dr Ken Emond a Dr Andrea Hammel (derbynnnydd grant bychan gan yr Academi Brydeinig i astudio trawma rhwng cenedlaethau).



# Sêr gwyddoniaeth

Ar ddydd Iau 27 Medi, ymwelodd Edwina Hart, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Fusnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, ag Aberystwyth er mwyn lansio cronfa newydd gwerth £50m i ddenu rhai o feddyliau gwyddonol mwyaf y byd i Gymru.

Nod 'Sêr Cymru' yw gwella rhagoriaeth ymchwil trwy ddenu ymchwilwyr gwyddoniaeth a'u timau o safon byd-eang i Gymru am gyfnod o bum mlynedd o leiaf, a chynyddu cyfran Cymru o arian Cyngor Ymchwil y DG o'r 3.4% presennol i 5%.

Bydd yr ymgyrch yn cefnogi sefydlu rhwydwaith ymchwil cenedlaethol cydweithredol ym meysydd peirianneg a deunyddiau uwch, gwyddorau bywyd ac

iechyd, a charbon isel, ynni a'r amgylchedd. Y rhain yw'r tair 'Her Fawr' a nodwyd yn strategaeth y Llywodraeth, 'Gwyddoniaeth i Gymru', a lansiodd yn gynharach eleni.

Mae Llywodraeth Cymru yn galw ar brifysgolion ledled Cymru i fanteisio ar y cyfle hwn i fod yn fwy uchelgeisiol a chydweithredol yn eu hagwedd at lunio ceisiadau am arian er mwyn cynyddu'r ymchwil a wobrwyyd yn gystadleuol.



Ch i'r Dd. Yr Athro John Harries, Prif Gyngorydd Gwyddonol Llywodraeth Cymru, yr Athro Wayne Powell, Gweinidog Llywodraeth Cymru Edwina Hart AC a'r Athro April McMahon.

Am fwy o wybodaeth ynghylch Strategaeth Gwyddoniaeth Cymru, ewch i: [www.wales.gov.uk/sercymru](http://www.wales.gov.uk/sercymru)

## Ydi bywyd yn dechrau yn 40?

Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn cymryd rhan yn y nifer mwyaf erioed o brosiectau ymchwil sydd wedi eu hariannu drwy Raglen Fframwaith yr Undeb Ewropeaidd.

O gymrodoriaethau Marie Curie i grantiau i academyddion unigol ardderchog Cyngor Ymchwil Ewrop, a phrosiectau cydweithredol gyda sefydliadau partner ar draws y byd, mae'r 40 prosiect ymchwil sydd ar waith o arwyddocâd arbennig wrth fywiogi symudedd academiaidd a gwella enw da'r Brifysgol tu hwnt i Gymru a'r Deyrnas Gyfunol.

Mae'r nifer o brosiectau cyfredol wedi mwy na dyblu ers mis Gorffennaf 2009, pan benodwyd Huw Merfyn Hughes gan y Brifysgol i gynorthwyo academyddion gyda'r broses ymgeisio.

"Bryd hynny, pan ddechreuais yn y swydd, roedd 16 o brosiectau ar waith," dywedodd Huw, "ac er bod rhai academyddion yn gyfarwydd â'r broses o wneud cais a chael mynediad rheolaidd i gronfeydd y rhaglen fframwaith, roedd y rhan fwyaf naill ai ddim yn gwybod am y cyfleoedd neu ddim yn awyddus i ymgeisio oherwydd yr enw drwg annheg a roddwyd i'r rhaglen am fod yn eithriadol gystadleuol a biwrocraidaidd. Cefais y dasg o egluro'r broses a darparu cymorth penodol i academyddion o bob rhan o'r Brifysgol a oedd yn dymuno gwneud cais."

"Er bod llanw a thrai megis y llanw o amgylch waliau harbwr Aberystwyth i nifer y prosiectau sydd ar waith," ychwanegodd Huw "does dim amheuaeth y byddwn yn dathlu 50 o brosiectau ar waith yn eithaf buan, oherwydd y nifer uchel o geisiadau sy'n cael eu paratoi ar gyfer dyddiadau cau'r hydref a'r gaeaf."

## Cysylltiadau cymorth ymchwil

Enw	Swydd	Ebost	Estyniad
<b>Swyddfa Ymchwil</b>			
Gary Reed	Pennaeth y Swyddfa Ymchwil	gar	1789
Hannah Payne	Swyddog FFRhY Monitro Ymchwil	hep	8490
Dafydd Roberts	<b>Swyddog Datblygu Ymchwil</b> - Cyfadrn y Celfyddydau a'r Dyniaethau	dir	8787
Jenny Deaville	<b>Swyddog Datblygu Ymchwil</b> - Cyfadrn y Gwyddorau Cymdeithasol	jjj	1616
Joanne Walker	<b>Swyddog Datblygu Ymchwil</b> - Cyfadrn y Gwyddorau	jnw	2947
Huw Merfyn Hughes	Rheolwr Datblygu Ewropeaidd	hnh	8742
Anne Howells	Swyddog Datblygu Ewropeaidd	nsh	4127
<b>IBERS</b>			
Tim Williams	Rheolwr Datblygu Cronfa Ymchwil IBERS	tdw	8754
Gwag	Rheolwr Datblygu Cronfa Ymchwil IBERS		
<b>Cyllid Ymchwil</b>			
Peter Botwood	Pwynt Cyswllt Canolog	peb16	8485

Ceir Cymorth Ymchwil pellach drwy'r Pecyn Cymorth Ymchwil a'r Bas-data Cyfleoedd Cyllido Ymchwil (PIVOT) yn [www.aber.ac.uk/cy/research/](http://www.aber.ac.uk/cy/research/)

## Gwella ein siawns o lwyddo – rheoli'r galw

Fel rhan o ymateb PA i bryderon RCUK am reoli'r galw am gyllid, a chyfraddau llwyddiant isel llawer o gyllidwyr, rydym wedi cymryd nifer o gamau er mwyn sicrhau bod ansawdd y ceisiadau mor uchel â phosib. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cefnogaeth gan y Swyddogion Datblygu Ymchwil (SDY) - cysylltwch â ni ar y cyfle cyntaf (argymhellir o leiaf dair wythnos cyn y dyddiad cau).
- Adolygiad o'r cais gan gymheiriaid mewnol - cysylltwch â'ch Cyfarwyddwr Ymchwil neu SDY.
- Mae haenen gymeradwyo ychwanegol ar system JES fel y gall y SDY gynnal archwiliad o holl geisiadau RCUK.

Cofiwch, er mwyn derbyn y gwasanaeth gorau oddi wrth y Swyddfa Ymchwil, dylech gysylltu â ni i drafod eich grant o leiaf dair wythnos cyn y dyddiad cau. Fel lleiafswm absoliwt mae'n rhaid i ni dderbyn y gwaith papur llawn (cais, ffurflen binc (RG1), FEC a thystiolaeth o adolygiad gan gymheiriaid) o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y dyddiad cau.

# Cyfnewid



Yn y rhifyn hwn o "Cyfnewid" yr ydym yn llawen o gael cyhoeddi'r buddugwr yng nghystadleuaeth 'Blwyddyn mewn Uned' 2012, ac i gyhoeddi ein cystadleuaeth 'Gwobr Ddyfeisio' gyffrous newydd. Gobeithiaf y byddwch yn annog eich myfyrwyr i gystadlu! Mae symudiadau ar y gweill yn ein swyddfa hefyd, bydd y Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori (GMY) a'r Swyddfa Ymchwil yn fuan yn symud i lawr

cyntaf a llawr isaf y Ganolfan Ddelweddu – gellir gweld mwy o fanylion am y symud hwn ar dudalen 2.

Wrth i'r Brifysgol fwrw ati gyda'r Cynllun Strategol newydd, mae hi'n amser da i feddwl am sut y gellir hybu eich ymchwil a'ch dysgu trwy weithio gyda busnesau a'r gymuned. Clywn lawer o eiriau ac acronymau i ddisgrifio hyn - cyfnewid technoleg, cyfnewid gwybodaeth, rhyngweithiad busnes a chymuned, cyfnewid dealltwriaeth, cyfieithu ac yn y blaen - ond y peth hanfodol amdano yw sut y bydd eich gwaith chi'n effeithio ar y byd y tu hwnt i academia. Oes potensial masnachol ar gyfer eich ymchwil? Efallai y medrech ddarparu prosiect ar y cyd gyda chwmmi fel ysgoloriaeth PhD? Ydy eich gwaith yn datblygu naratif y medrai aelod o'r cyhoedd ei archwilio a'i ddeall yn haws trwy ddefnydd ap i ffôn symudol? Ydy'r deunydd a fyddwch yn ei ddysgu'n berthnasol i gwmnïau? Medrem ni redeg sesiwn fer ar gyfer cynrychiolwyr cwmnïau yn seiliedig arno fel cwrs Datblygiad Personol Parhaol? Ydych chi wedi dyfeisio rhywbeth y gellir ei osod dan batent? Oes gennych chi syniad a fedrai fod yn sail i gwmni newydd?

Mae cydweithwyr ledled y Brifysgol eisoes yn ennill cyllid ar gyfer y math hwn o waith, a gall GMY ynghyd â'r Swyddfa Ymchwil eich helpu chi i wneud yr un peth. Yr ydym yn hapus i glywed oddi wrthyach ar bob cyfri felly peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni er mwyn trafod eich syniadau.

**Liz Flint** Cyfarwyddwr GMY

## Apiau amaeth - y diweddaraf



farmGRAZE

Lansiom yn ddiweddar yr ap cyntaf o "her apiau symudol" 2011. Ers inni ei ryddhau ar siop apiau Google Play ym mis Gorffennaf 2012, mae farmGRAZE wedi cael ei lawr lwytho mwy na 700 o weithiau gan ddefnyddwyr yn y DG a thros y byd, gan gynnwys UDA, Seland Newydd, Awstralia a De Corea yn ogystal â sawl gwlad Ewropeaidd. Hefyd, cafodd farmGRAZE ei ddefnyddio fel adnodd hyfforddi yn y Gweithdy Glaswelltiroedd Cynaliadwy ym mis Medi 2012, a drefnwyd gan y Bartneriaeth Hyfforddiant Datblygedig ar gyfer Cynhyrchu Bwyd yn Gynaliadwy ac yn Effeithlon. ([www.atp-pasture.org.uk](http://www.atp-pasture.org.uk)).



horseRATION

Mae'r ail ap ar gyfer y gystadleuaeth apiau bellach yn agosáu at gael ei gwblhau. Bydd horseRATION yn cael ei lansio ar iTunes ym mis Tachwedd 2012. Amcan horseRATION yw osgoi gordewdra mewn ceffylau a'r problemau iechyd sy'n cyd-fynd ag ef. Cyfrifa'r ap hwn faint o borthiant a dwysfwyd y dylid bwydo i geffyl yn ddyddiol yn seiliedig ar wybodaeth ar

ymddygiad, gwaith, statws bridio'r anifail, Sgôr Cyflwr y Corff, oedran, pwysau a thaldra. Yr ydym yn rhagweld y bydd defnyddwyr yn arbed arian gan na fyddant yn gwario gormod ar fywydd diangen nac yn gorfod talu costau milfeddyg.

Darperir horseRATION, fel farmGRAZE, trwy waith ymchwilwyr yn IBERS a bydd ar gael i'w lawr lwytho trwy wefan mobileFARM ([www.mobilefarmapps.com](http://www.mobilefarmapps.com)). Os oes gennych unrhyw syniadau am apiau ar gyfer amaeth neu iechyd anifeiliaid, yn seiliedig ar eich ymchwil, cysyllter â Dr Rhian Hayward, Swyddog Trosglwyddiad Technoleg. ([rih@aber.ac.uk](mailto:rih@aber.ac.uk)).

### Rose Wood yn ennill Blwyddyn mewn Uned Greadigol

Y gynllunwraig Rose Wood yw cystadleuydd buddugol cystadleuaeth "Blwyddyn mewn Uned Greadigol" y Brifysgol ar gyfer 2012.

Cafodd Rosie ei dewis gan banel yn arddull 'Dragon's Den', a bydd yn defnyddio un o'r unedau creadigol arobryn, nepell o Ganolfan y Celfyddydau, fel canolfan ar gyfer ei busnes - sef cynllunio a chynhyrchu gemwaith gain a dyfeisgar o'r safon uchaf.

Mae Rose yn llawn cyffro am gael lleoli ei busnes yng Nghanolfan y Celfyddydau ac yn gweld cyfle da i rwydweithio gyda thalentau creadigol eraill ac mewn amgylchfyd a fydd yn caniatáu i'w busnes ffynnu.

Mae gwaith Rose yn seiliedig ar symudiad a chyffyrddiad a pherthyn iddo estheteg syml ond pendant. Ymysg y gweithiau ceir gemwaith syml ar gyfer defnydd dyddiol i ddarnau datganiad mwy, sy'n cynnwys elfennau lledr, arian, tecstilau a phapur. Agwedd arall o'u gwaith dylunio yw darnau defnydd cinetig gwisgadwy ar gyfer arddangosfeydd, perfformio a chomisiwn.

Tra'i bod mewn Uned Greadigol yng Nghanolfan y Celfyddydau, cefnogir Rose gan Reolwr Menter y Brifysgol, Tony Orme.



Gemwaith gan Rose Wood

**GWASANAETHAU MASNACHEIDDIO  
AC YMGYNGHORI**

**Cyswilt Golygyddol:** Delyth Whitelaw,  
[dte@aber.ac.uk](mailto:dte@aber.ac.uk) Est: 8753



## Chwilio am “GaisDdyfeisiwr” gorau Prifysgol Aber

Mae'r gystadleuaeth Gwobr CaisDyfeisio i fyfyrwyr bellach ar agor!



Lansiwyd y gystadleuaeth newydd a chyffrous i fyfyrwyr, Gwobr CaisDyfeisio, yn ystod digwyddiad menter ysbrydoledig ym mis Hydref i gynulleidfa o dros 40 aelod o staff, myfyrwyr a graddedigion. Daeth pobl fusnes llwyddiannus, Layla Bennett sylfaenydd Hawksdrift Falconry ac enillydd Dragon's Den yn 2010, a Ben Giles, sylfaenydd Ultima Cleaning Ltd a'r National Academy of Crime Scene Cleaners i rannu eu straeon am ddechrau busnes gyda llond ystafell o fyfyrwyr â diddordeb mewn entrepreneuriaeth.

Nod Gwobr CaisDyfeisio yw annog myfyrwyr i fod yn entrepreneuraidd a dyfeisgar a chyflwyno eu syniadau i ddechrau busnes neu gynnwyrch gyda'r gobaith o ennill cyfle i wireddu eu syniadau busnes.

Bydd y sawl sydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i 'werthu' eu syniadau busnes i banel o feirniaid (mewn cyfweiliad ar ffurf "Dragons Den"), gyda'r cais buddugol yn derbyn pecyn cymorth gwerth hyd at uchafswm o £20,000 i ddechrau'r busnes. Yn ogystal, bydd yr holl ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael cyngor arbenigol gan nifer o blith cyn-fyfyrwyr blaenllaw'r Brifysgol sydd wedi gwneud enw iddynt eu hunain yn y meysydd busnes a menter.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Wobr CaisDyfeisio yn [www.aber.ac.uk/inventerprise](http://www.aber.ac.uk/inventerprise). Telerau ac amodau'n berthnasol.

Trefnir Gwobr CaisDyfeisio gan y Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori mewn partneriaeth â'r Adran Ddatblygu a Chysylltiadau Alumni, a chefnogaeth y Gronfa Flynyddol.

Fel rhan o'r gystadleuaeth Gwobr CaisDyfeisio, bydd Rhwydwaith Menter Aberystwyth yn cynnal amrywiaeth o Ddosbarthiadau Meistr mewn Dechrau Busnes fydd ar agor i fyfyrwyr, graddedigion a staff yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2012. Ewch i [www.aber.ac.uk/crisalis](http://www.aber.ac.uk/crisalis) am ragor o wybodaeth neu cysylltwch â Tony Orme, y Rheolwr Menter ar [awo@aber.ac.uk](mailto:awo@aber.ac.uk).

## Staff Hŷn yn mynychu Hyfforddiant Hyfforddwr Mentergarwch Rhyngwladol

Llongyfarchiadau i Carolyn Parry (Dirprwy Gyfarwyddwr dros dro'r Gwasanaeth Gyrfaoedd) sydd wedi cwblhau'r Rhaglen Addysgwyr Mentergarwch Rhyngwladol yn llwyddiannus, ac sydd wedi derbyn cymrodoriaeth oddi wrth "Enterprise Educators UK", y prif gorff ar gyfer Addysg Mentergarwch.

Yr oedd Carolyn yn un o saith cynrychiolydd yn unig o sefydliadau Cymreig a dderbyniodd nawdd oddi wrth Llywodraeth Cymru i gymryd rhan yn y rhaglen. Trefnwyd y rhaglen 18 mis ar y cyd gan y Cyngor Cenedlaethol dros Fentergarwch Graddedig ac Enterprise Educators UK.

## Ymgynghoriaeth Aber Bangor Cyf.

Fel y gwyddoch efallai, mae'r Brifysgol wedi sefydlu cwmni menter ar y cyd â Phrifysgol Bangor, fel rhan o'n Cynghrair Strategol. Bydd Ymgynghoriaeth Aber Bangor Cyf. (ABC) yn sefydliad a ddefnyddir gan y ddwy brifysgol i ymgymryd â gweithrediadau ymgynghoriaeth, gan ddechrau ym mis Ionawr 2013.

Amcan ABC Cyf yw: darparu mecanwaith gefnogi hylaw a fydd yn darparu cefnogaeth ymgynghoriaeth i staff y Brifysgol; codi ymwybyddiaeth o broffil y Brifysgol; cynnig cyfle i greu a darparu impact o weithgareddau ymchwil; caniatáu cyfnwid gwybodaeth gyda busnesau a'r gymuned ehangach; a chyfrannu at ddatblygiad proffesiynol a phersonol staff.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall gwaith ymgynghori a wneir gan staff fod o fudd i'r unigolyn a'r Brifysgol, a charant annog cyfnwid gwybodaeth trwy drefnu mwy o ryngweithiad mewn gwaith ymgynghori.

Yn ystod yr hydref, bydd GMY yn ymgymryd ag ymarfer ymgynghoriaeth gyda staff er mwyn deall pa ffyrdd sydd orau i'r Brifysgol i gefnogi ei staff yn ei gwaith ymgynghori. Os oes gennych unrhyw sylwadau y carech eu hychwanegu at yr ymgynghoriaeth hon cysyllter â Chris Heidt, Rheolwr Contractau a Gweithgareddau ([cah@aber.ac.uk](mailto:cah@aber.ac.uk)).

## Staff newydd

GMY yn croesawu dau aelod newydd i'r tîm:

Ymuna **Alan Davies** â GMY fel Rheolwr Gwaith Allanol Cyfrifiadurol Safon Uchel Cymru (HPC Wales). Mae HPC Wales yn gydweithrediad dyfeisgar sy'n galluogi busnesau ac ymchwilwyr i gael mynediad i



Alan Davies a Lesley Langstaff

dechnoleg gyfrifiadurol ddiogel, hawdd i'w ddefnyddio, o'r safon uchaf. Bydd Alan yn rheoli'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a chwmnïau mawr yng Nghymru. Mae'n angerddol o blaid y defnydd o dechnoleg fel cyfrwng i newid busnesau ac i hyrwyddo twf economaidd.

Ymuna **Lesley Langstaff** â Rhaglen WISE2 fel Rheolwr Prosiect Rhwydwaith Wise. Mae WISE2 yn brosiect ar y cyd gyda Bangor ac Abertawe a gyllidwyd gan ERDF, ac sy'n ymgymryd â gwaith ymchwil a datblygu ar y cyd gyda mentrau ar draws ardal cydgyfeirio Cymru. Cyn hyn roedd Lesley'n Gydlynnydd Prosiect ar y cynllun Rhwydweithiau Dysgu Cynaliadwy yn Iwerddon a Chymru (SLNIW) yn yr Ysgol Fusnes a Rheolaeth.

### GWASANAETHAU MASNACHEIDDIO AC YMGYNGHORI

Am wybodaeth neu gefnogaeth yn ymwneud â chyfleoedd cyfnwid gwybodaeth cysylltwch â ni, neu dewch i'n swyddfeydd ar lawr cyntaf y Ganolfan Ddelweddu.

Gwasanaeth Ymholiadau Canolog GMY: [ccservices@aber.ac.uk](mailto:ccservices@aber.ac.uk) - est 2385 - [www.aber.ac.uk/ccs](http://www.aber.ac.uk/ccs)

# Pwysigrwydd heneiddio'n llawn bwrlwm: mae iechyd da yn ychwanegu bywyd i'r blynyddoedd

Mae cyfartaledd disgwyliad oes yn Ewrop bellach dros 80 mlynedd. Mae Dr Emily Oliver a Dr Joanne Hudson, o'r Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, yn trafod rhai o'r heriau allweddol y mae hyn yn eu creu i unigolion, i deuluoedd ac i'r gymdeithas yn ehangach.



Dr Emily Oliver



Dr Joanne Hudson

Mae'r cynnydd cyson yn y boblogaeth sy'n heneiddio yn codi amryw heriau yn fyd-eang a chenedlaethol, gan gynnwys darparu pensiwn a gofal cymdeithasol, annibyniaeth a gofal yn y cartref yng nghyfnod diwedd oes. Pa mor abl yw Cymru i ymdopi â'r gofynion iechyd a geir mewn poblogaeth sy'n heneiddio, ac yn fwy hanfodol, beth fedrwn ni ei wneud i helpu poblogaeth Cymru i 'ychwanegu bywyd i'w blynyddoedd'? Mae'r rhain yn gwestiynau allweddol.

Ymhlith gweithwyr meddygol proffesiynol, darparwyr gofal iechyd a gweinidogion y llywodraeth fe geir trafodaeth frwd am y ffyrdd gorau i ymdrin â'r materion hyn. Ceir consensws cyffredinol bod ymarfer corff a gweithgarwch corfforol gyda'r dulliau gorau i effeithio ar les yr henoed. Mae astudiaethau a fu'n arsylwi grwpiau poblogaeth mawr dros nifer o flynyddoedd ac ymyrryd, trwy ddarparu rhaglenni ymarfer corff penodol, wedi dangos fod gweithgarwch corfforol yn dwyn nifer enfawr o fuddion.

Er enghraifft, mae ymarfer corff neu fod yn weithgar yn gorfforol yn helpu i gynnal iechyd cardiofasgwlaidd a nerth y cyhyrau, yn lleihau'r tebygolrwydd o afiechyd meddwl fel iselder, ac yn golygu eich bod yn llai tebygol o fod angen triniaeth yn yr ysbyty. Aiff y rhestr yn ei blaen. Gall ymarfer corff hefyd arafu dirywiad gwybyddol, gwella'r cof, cynorthwyo â phatrymau cwsig, a chynnal cyflwr meddwl cadarnhaol. Mae cymryd rhan mewn rhaglenni ffurfiol o weithgarwch corfforol yn ein helpu i deimlo'n dda ynglŷn â'n hunain a meithrin perthynas ag eraill.

Mae'r rhain i gyd yn fuddion posibl i unigolion iach. Pan ddaw'n

fater o ddefnyddio gweithgarwch corfforol yn driniaeth i'r sawl sy'n dioddef iechyd gwael, gwelir ei wir fanteision. Erbyn hyn, dangoswyd ei fod yn fwy effeithiol a chost-effeithlon na thriniaethau cyffuriau i amrywiaeth o gyflyrau, ac mae'n arfer safonol bellach i feddygon teulu ragnodi ymarfer corff i amrywiaeth o gleifion (e.e. y sawl sydd wedi cael diagnosis o iselder ysgafn i ganolig). Mewn gwirionedd, mae tystiolaeth ddatblygol yn awgrymu bod hyd yn oed y sawl a fyddai yn hanesyddol wedi cael eu cynghori i 'arafu' bellach yn llawer mwy tebygol o gael eu hannog i ymarfer corff trwy fentrau fel y Cynllun Cyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol.

Mae Cymru'n darparu nifer o raglenni a chyfleoedd sy'n galluogi'r henoed i ddatblygu'n fwy gweithgar yn gorfforol, er enghraifft nofio am ddim i'r rhai dros 60 oed. Ceir rhaglenni eraill sy'n fwy penodol, yn seiliedig ar angen dynodedig. Er enghraifft mae'r rhaglen 'Cydbwysedd Perffaith' yn Nhywyn, Gwynedd, wedi cynnal dosbarth yn y gymuned i drigolion am flynyddyn yn canolbwyntio ar atal cwmpadau. Profodd y cynllun hwn, gydag ystod o gyfranogwyr yn eu 70au, 80au a 90au, fuddion megis sbarduno cymhelliant ar gyfer gweithgaredd corfforol. Er enghraifft dywedodd un "bod gwella'n teimlo'n dda ... rwy'n teimlo'n gwbl ffit ar ôl y dosbarthiadau. Mae'r rhaglen yn gwireddu fy holl ddymuniadau ac rwy'n mwynhau fy hun; mae'n rhoi pwrpas i mi oherwydd yn aml dydych chi ddim yn teimlo eich bod am wneud pethau wrth fynd yn hŷn".

Wrth gwrs mae buddiannau ymarfer corff a gweithgaredd corfforol yn wybyddus ers cyn cof. Ac eto, mae nifer y rhai sy'n cymryd rhan



mewn gweithgaredd corfforol ar draws y boblogaeth, ac yn benodol ymhlith yr henoed, yn siomedig o isel. Er gwaethaf llwyddiant lleolyr hagleddi myrryd, mae'n amlwg fod ffordd bell ar ôl i fynd. Mewn cyfnod o doriadau i ddarpariaeth y GIG a chyllid elusennol, ceir bylchau sylweddol o hyd yn ein gwybodaeth am y ffyrdd mwyaf effeithiol o hybu gweithgaredd corfforol. Bydd gwell dealltwriaeth am hyn yn gymorth i gyfrannu at bolisi gofali iechyd, lleihau costau cymdeithasol ac economaidd, ac yn bwysig iawn gwella ansawdd bywyd cleifion.

Rydym felly'n awgrymu bod angen tri pheth i sicrhau bod Sefydliad Iechyd y Byd yn llwyddo i hyrwyddo gweithgarwch corfforol ymhlith yr henoed. Yn gyntaf, cyllid parhaus i raglenni ac ymyriadau arloesol o ansawdd uchel. Mae'n bwysig cofio nad yw cynnig cyfleoedd yn unig yn ddigon. Mae angen hefyd targedu ffactorau ffisiolegol fel agweddau a chymhelliant, y gwyddom fydd yn cynyddu'r nifer a fydd yn ymgymryd â gweithgarwch corfforol.

Yn ail, mae angen i bawb ddechrau gweithio'n fwy cydweithredol (e.e. y GIG, prifysgolion, y cyhoedd). Mae hyn eisoes yn digwydd mewn nifer o fannau. Er enghraifft, yn yr Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff yma yn PA, mae'r grŵp ymchwil Gweithgarwch Corfforol yn gysylltiedig â Heneiddio, Adferiad ac Iechyd yn dod â thim amlddisgyblaethol at ei gilydd, sy'n cynnwys biomecanegwyr, ffisiolegwyr, a seicolegwyr gwybyddol ac ymddygiadol sy'n gweithio'n agos â chlinigwyr y GIG, cleifion a chyrrff gwirfoddol. Mae prosiectau parhaus yn cynnwys datblygu gwell dealltwriaeth o ran gweithgaredd corfforol yn y gwaith o atal a rheoli clefyd siwgr, caniatáu byw'n annibynnol, cynnal iechyd drwy ymarfer corff a lleihau poen ac anghysur.

Yn olaf, mae angen i bobl gymryd rhan: yn y profi, y rhannu syniadau, yr ymchwilio, annog pobl eraill ac yn y cynlluniau lleol. Ar un ystyr mae'r rhwystrau i weithgarwch corfforol yr un fath i bawb i ryw raddau, ac efallai bod gwahanu'r henoed oddi wrth ddarpariaeth ac ymgyrchoedd prif ffrwd yn nawddoglyd ac yn wrthgynhyrchiol. Ond, mae'n amlwg yn hanfodol ein bod yn gwella cyfraddau gweithgarwch presennol, a sicrhau bod hirhoedledd ac ansawdd bywyd yn mynd law yn llaw.

## NEWYDDION MYFYRWYR

Wrth i Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ddathlu 90 mlynedd eleni, Ben Meakin, Llywydd Undeb y Myfyrwyr a'r Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor Profiad y Myfyriwr a Rhyngwladol sy'n esbonio sut mae'r Undeb yn rhan hanfodol o brofiad Aberystwyth.



Yn yr un modd ag y mae llyfgell dda yn greiddiol i Brifysgol, mae undeb myfyrwyr fywiog wrth galon profiad rhagorol i fyfyrwyr. Mae hyn yn gweithio orau os yw'n seiliedig ar berthynas agored a gonest, gyda'r un awydd i wneud ein gorau dros ein myfyrwyr.

Mae'r berthynas rhwng prifysgol a'i hundeb myfyrwyr yn un sy'n newid yn barhaus, gan ddibynnu i raddau helaeth ar bersonoliaethau a hinsawdd wleidyddol y cyfnod. Mae golygfeydd o fyfyrwyr yn ymgyrchu y tu allan i adeiladau prifysgol, yn meddiannu ystafelloedd ac yn herio'r 'drefn' yn rhan o'n cof cyfunol (neu'n dychymyg cyfunol) am fywyd myfyrwyr. Ystyriwyd yn aml mai bod ar ddwy ochr wahanol y ffens a mabwysiadu agwedd ymosodol yw'r man cychwyn i unrhyw sgwrs rhwng undeb a phrifysgol. Fodd bynnag, yn ddiweddar dydyn 'nhw' a 'ni' ddim mor wrthwynebus i'w gilydd: yn aml rydyn ni'n sefyll ochr yn ochr.

A oedd Adroddiad Dearing ym 1997 yn arwydd o newid pwysig yn y ffordd y mae prifysgolion ac undebau'n gweithio gyda'i gilydd, drwy newid y maes chwarae o fod yn sefyllfa lle'r oedd myfyrwyr yn derbyn grantiau i fod yn un lle'r oedd myfyrwyr bellach yn gwsmeriaid sy'n talu? Wrth gwrs bu'r Brifysgol o'r farn erioed ei bod yn darparu gwasanaethau rhagorol i fyfyrwyr, pwy bynnag sy'n talu'r bil. Efallai fod y myfyrwyr yn edrych ar bethau mewn ffordd wahanol.

Bellach, rydyn ni'n cydweithio'n llawer agosach, gan ganolbwyntio ar roi'r profiad gorau posibl i'r myfyrwyr. Yn Aberystwyth, mae Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol yn ddiweddar wedi cytuno ar Siarter Myfyrwyr ar y cyd, sy'n ddatganiad cyhoeddus o'r ffordd y bydd y ddwy ochr yn cynorthwyo myfyrwyr Aberystwyth ac yn gwella'u dysgu. Mae'r cytundeb hwn, a lofnodwyd, yn egluro'n glir yr hyn y gall myfyrwyr ei ddisgwyl oddi wrth eu Hundeb Myfyrwyr a'u Prifysgol - a'r hyn sy'n ddisgwylieidd oddi wrth pob myfyriwr unigol.

Gall cefnogi ein gilydd, a gweithio ar yr un pryd ar ein hagenda'u ein hunain, brofi'n heriol ar adegau. Ond tra bo'r berthynas rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol yn mynd o nerth i nerth, mae hefyd yn fanteisio i'r ddwy ochr eu bod yn gwbl annibynnol. Cynhelir cyfarfod misol rhwng y Tim Gweithredol a'r swyddogion sabothol, ac mae presenoldeb cynrychiolwyr etholedig yr Undeb ar y mwyafrif o bwyllgorau'r Brifysgol yn sicrhau bod llais y myfyrwyr i'w glywed yn ystod y broses o wneud penderfyniadau.

Beth felly mae myfyrwyr Aber heddiw yn dymuno'i gael gan eu Hundeb a'u Prifysgol? Yn amlwg maen nhw am gael yr addysg orau bosibl, yn cael ei darparu gan ddarlithwyr difyr a brwd o safon byd-eang. Maen nhw am gael gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel, gofod dysgu hyblyg a'r adnoddau diweddaraf. Mae'r gwasanaeth eiriolaeth a chymorth a ddarperir i fyfyrwyr unigol gan swyddogion yr Undeb yn rhan sylfaenol o brofiad y myfyrwyr ac yn rhywbeth y mae'r Brifysgol yn gweithio'n galed i'w warchod.

Yn amlwg, ar ddiwedd eu hastudiaethau, mae myfyrwyr yn dymuno mynd i swydd ar lefel gradd. Yn Aber, mae'r Brifysgol yn gweithio i ddatblygu cysylltiadau ag alumni a chyflogwyr partner, a darparu cyfleoedd rhagorol ledled y byd. Mae'r Undeb yn darparu cyswllt uniongyrchol at gyflogaeth drwy'r Siop Swyddi yn adeilad yr Undeb, ac yn rhoi myfyrwyr mewn sefyllfa i ddatblygu eu sgiliau y tu hwnt i'r ddarlithfa trwy redeg clybiau a chymdeithasau neu drwy gynrychioli myfyrwyr - mae traean o fyfyrwyr Aber yn ymwneud â chlybiau a chymdeithasau'r Undeb.

Mae un peth yn glir: yn Aber, er nad yw'r Undeb a'r Brifysgol bob amser yn cytuno, rydym ill dwy wedi ymrwymo i'n berthynas symbiotig a gwerth y berthynas honno. Beth bynnag yw'r hinsawdd, mae hynny'n sicrhau ein bod ni ymhlith y profiadau gorau i fyfyrwyr yn y DG.

ADNODDAU DYNOL



Rhai aelodau'r tîm Adnoddau Dynol.

## Dyfodol Cydraddoldeb

Mae'r Brifysgol wedi datblygu cynllun cydraddoldeb newydd (Cynllun Cydraddoldeb Strategol) ynghyd â chynllun gweithredu sydd ar gael ar [www.aber.ac.uk/equality](http://www.aber.ac.uk/equality).

### Ar gyfer pwy mae hwn?:

Mae ar gyfer pawb yn ein cymuned o staff, myfyrwyr ac ymwelwyr, yn ogystal ag ymgeiswyr posibl (staff a myfyrwyr). Cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth o fewn ein cymuned ac rydym yn gobeithio fod y cynllun yn adlewyrchu'r ysbryd o barch a chydweithrediad sy'n bodoli ymysg pawb o'r cyfranwyr.

### Beth yw neges y cynllun?:

Cadarnha'r cynllun ein hymroddiad i ddarparu amgylchedd lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion, a lle gall ein staff weithio, dysgu a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn amgylchedd o barch ac urddas.

Yn ogystal ag ymateb i ofnion cyfreithiol (Deddf Cydraddoldeb 2010) nod y cynllun hefyd yw dangos fod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn hanfodol i'r ffordd yr ydym yn trefnu ac yn darparu ein gweithgareddau; dylem ni oll gofleidio a phlethu cydraddoldeb ac amrywiaeth gan eu cymhwyso i bopeth yr ydym yn ei wneud, a darparu amgylchedd cynhwysol a chroesawgar.

Mae'r cynllun hefyd yn herio discrimineiddio, aflonyddu a bwllian, ac yn amlinellu ein bwriad i sicrhau cydraddoldeb cyfle i bawb.

### Pa feysydd sydd yn y cynllun?:

Mae gennym naw nodwedd sydd wedi eu diogelu - Oed, Anabledd, Ailgyfeiriad Rhyw, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd neu Ffydd, Rhyw neu Rywioldeb.

Am wybodaeth bellach neu i roddi adborth cysyllter â: Ms Olympia Petrou, Ymgynghorydd Cydraddoldeb ar [opp@aber.ac.uk](mailto:opp@aber.ac.uk) neu 01970 62 8598.

## Athena SWAN



Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn ymgeisio am Wobr Sefydliadol Efydd Siarter Athena SWAN. Cefnoga egwyddorion Athena SWAN hyrwyddiad a gyrfaoedd gwragedd mewn gwyddoniaeth, peirianwaith a thechnoleg mewn addysg uwch ac ymchwil.

Mae grŵp gweithredol, a gynrychiolir gan Dr Kate Bullen, Pennaeth Seicoleg (Pencampwraig Athena SWAN), Gary Reed, Pennaeth y Swyddfa Ymchwil, Olympia Petrou, Ymgynghorydd Cydraddoldeb, cynrychiolwyr o bob un o'n chwe adran wyddoniaeth a chynrychiolwyr myfyrwyr, wedi cydweithio i ddatblygu cais y Brifysgol a fydd i'w gael yn gyhoeddus yn fuan.

Bydd y cais yn cynnwys data ar gyfraddau staff gwrywaidd/benywaidd, cynllun gweithredu ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod a manylion ar gyfer gwaith cydraddoldeb rhyw sydd wedi bod yn digwydd e.e. bandio cyflog a dyrchafiadau.

## Gwasanaethau cwnsela newydd

Mae gwasanaethau cwnsela'r Brifysgol bellach yn cael eu darparu gan ddarparwr newydd.

Mae'r Rhaglen Gymorth i Gydweithwyr (RhGG) yn cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol i helpu i ymateb i bob her ac anhawster ac sy'n codi mewn bywyd, boed yn fach neu'n fawr, yn bersonol neu'n ymwneud â gwaith. Gall y gwasanaeth gefnogi cydweithwyr trwy ddarparu cwnsela ar y ffôn neu wyneb-yn-wyneb yn ogystal â chysylltiadau at ymgynghorwyr arbenigol ar gyfer cymorth ymarferol.

Mae'r RhGG ar gael 24/7, bob dydd o'r flwyddyn, ac y mae'n wasanaeth cyfrinachol a ddarperir yn rhad ac am ddim i bob aelod o staff PA. Gellir gweld manylion cyswllt ar gyfer y gwasanaeth yma ar wefan Adnoddau Dynol. [www.aber.ac.uk/cy/hr/](http://www.aber.ac.uk/cy/hr/).

## Dydd Cenedlaethol Ymwybyddiaeth Straen

I gefnogi Diwrnod Cenedlaethol Ymwybyddiaeth Straen ar ddydd Mercher y **7fed o Dachwedd**, cynhaliodd y Brifysgol ddiwrnod iechyd ar gyfer staff a myfyrwyr, oedd yn cynnwys gweithgareddau fel profi cyfradd calon a glwcos gwaed. Yn ystod y diwrnod bu cynrychiolwyr o Mind Cymru, y Samariaid ac Amser i Newid Cymru yn bresennol yn yr Adran Seicoleg i ateb cwestiynau ac i ddarparu gwybodaeth i unigolion ar y math o gefnogaeth sydd ar gael i unrhyw un sy'n dioddef o straen neu drafferthion yn ymwneud â phroblemau iechyd meddwl.

## Rheoli AD ar draws ffiniau

Mae Llywodraeth Cymru, ar ran Grŵp Llywio Proffesiwn Penaethiaid Adnoddau Dynol Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, wedi derbyn gwobr Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) yn y categori 'Rheoli Adnoddau Dynol ar draws Ffiniau'.

Cynrychiolodd Susan Chambers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol PA, y sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghinio Gwobrwyo y CIPD yn Llundain ar 17 Hydref. Chwaraeodd hithau rôl allweddol wrth ddatblygu gwaith y Grŵp Llywio.

Mae gwaith y Grŵp Llywio a dderbyniodd ganmoliaeth arbennig, yn cynnwys gwefan Adnoddau Dynol Cymru, sy'n cefnogi cydweithio ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, a'r Rhaglen Gymorth i Gydweithwyr (gweler uchod).

Roedd Dell a BUPA ymysg y grwpiau a drechwyd gan y Grŵp Llywio yn y gystadleuaeth.



## POBL ABER

## Penodiadau Uwch

### ATHROFA GWYDDORAU DYNOL

Penodwyd **Dr Kate Bullen** yn Gyfarwyddwr yr Athrofa Gwyddorau Dynol, sydd yn cyfuno adrannau Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff. Penodiad pedair blynedd yw yn y lle cyntaf. Mae Dr Bullen wedi bod yn Bennaeth yr Adran Seicoleg er ei sefydlu yn 2008.



### YR ADRAN ASTUDIAETHAU

#### GWYBODAETH

Penodwyd **Dr Allen Foster** yn Bennaeth yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth.

Ymunodd Dr Foster ag Aberystwyth fel darlithydd yn 2002.

Mae diddordebau dysgu ac ymchwil Dr Foster yn cwmpasu astudio gwybodaeth a'i defnyddwyr, ac yn cynnwys gwasanaethau a systemau gwybodaeth, adfer gwybodaeth, llythrennedd gwybodaeth, llyfrgellyddiaeth cerddoriaeth, ac ymddygiad ceisio a chwilio am wybodaeth. Mae'r penodiad am gyfnod o 5 mlynedd a dechreuodd Dr Foster yn y swydd ar 1 Medi.

### YR ADRAN GWLEIDYDDIAETH

#### RYNGWLADOL

Mae **Dr Jennifer Mathers** wedi cael ei phenodi yn Bennaeth Dros Dro'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Ymunodd Dr Mathers â'r Adran yn 1992, ac mae'n dysgu ac yn ymchwilio ym meysydd gwleidyddiaeth Rwsia, diogelwch, rhywedd a rhyfel. Bydd Dr Mathers yn gwasanaethu o 1 Hydref 2012 tan 31 Gorffennaf 2013.



## Penodiadau academiaidd

### SEFYDLIAD Y GWYDDORAU BIOLEGOL, AMGYLCHEDDOL A GWLEDIG

Mae **Dr Dylan Phillips** yn ymuno ag IBERS fel Cymrawd Addysgu ym maes gwyddor planhigion a bydd yn ymwneud â datblygu'r radd meistr dysgu o bell yn IBERS dan faner y Bartneriaeth Hyfforddi Uwch. Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar ddeall llwybrau atgyweirio DNA meiotig mewn grawnfwydydd a gweiriau â'r nod o wella effeithlonrwydd rhaglenni bridio planhigion modern.

Penodwyd **Julia Jenkins** yn Gymrawd Addysgu E-ddysgu i brosiect ATP IBERS. Yn wreiddiol mae'n raddedig o Brifysgol Caerefrog. Ers 1993 bu'n aelod o'r Uned Dysgu Agored yn yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth a bu'n cefnogi ac yn mentora myfyrwyr Lwfans Myfyrwyr Anabl fel aelod o dim Cymorth Myfyrwyr y Brifysgol.

Penodwyd **Dr Neil MacKintosh** i swydd Cymrawd Addysgu Gwyddor Anifeiliaid y Bartneriaeth Hyfforddi Uwch (ATP) yn IBERS. Bydd Neil yn gweithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor a'r Sefydliad Cenedlaethol Botaneg Amaethyddol (NIAB) i ddarparu gweithdai lefel uwchraddedig a modiwlau dysgu o bell ar ymchwil cyfredol mewn gwyddor anifeiliaid i'r sawl sy'n gysylltiedig â chadwyni cyflenwi eidion, oen a llaeth y DG.



### ADRAN SEICOLEG

Mae **Dr Nigel Holt** wedi ymgymryd ag uwch-ddarlithyddiaeth yn yr Adran Seicoleg. Mae diddordebau ymchwil Nigel yn y berthynas rhwng sain a pherfformiad gwybyddol a chanfyddiad amser gyda'i waith rhyngddisgyblaethol yn canolbwyntio ar seicoleg a pheirianeg.

Mae **Dr Verena Pritchard** wedi ymgymryd â swydd ddarlithio, gan ymuno â ni o Brifysgol Canterbury (Seland Newydd). Mae ei phrosiectau a diddordebau ymchwil cyfredol yn cynnwys: canlyniadau niwroddatblygiadol plant risg uchel; effaith ffonau cell a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol ar blant; blaenlencyndod a'r teulu; seibr-fwlian; swyddogaeth weithredol; a phrosesau ataliol mewn sylw a chof.



Mae **Dr Rachel Horsley** yn ymuno â'r Adran ar ôl wyth mlynedd yn darlithio ym Mhrifysgol Nottingham Trent. Arbenigedd Rachel yw addysgu Seicoleg Fiolegol ac mae ei ddiddordebau ymchwil yn canoli ar ddysgu cysylltiol a chamweithredu seicolegol, yn enwedig anhwylderau â chydrannau byrbwyll a gorfodaethrol megis gamblo problem.

Mae **Dr David Tod** yn ymuno â ni o'r Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff. Symudodd David i Aberystwyth o Melbourne, Awstralia lle cwblhaodd PhD ar arbenigedd cyflenwi gwasanaeth seicolegydd. Mae ymchwil David yn canolbwyntio ar y rhyngchwarae rhwng hunan-ganfyddiad, delwedd y corff, ac ymddygiad iechyd, yn enwedig yn ymwneud â chyhyrogwrwydd mewn gwrywod.

Mae **Dr Tim Wells** wedi ymuno â'r Adran fel Technegydd Seicoleg. Mae ganddo ddiddordeb mewn dulliau methodolegol ac ystadegol eang o ymchwil. Yn ogystal â chynnyg cymorth technegol dydd i ddydd mewn seicoleg, bydd yn gyfrifol am gynnal a rhedeg y cyfarpar arbenigol.



## Penodiadau academiaidd

### ADRAN GWYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF

Ymunodd **Chris Bridle** â'r Adran fel Athro mewn Gwyddoniaeth Ymddygiad Dynol, ac ef hefyd yw Cyfarwyddwr Ymchwil yn yr Athrofa Gwyddorau Dynol newydd. Mae Chris yn Seicolegydd Siartredig ac yn arbenigo mewn profion clinigol a synthesis tystiolaeth, ac ym myd dylunio a gwerthuso'r hyn sy'n cyflyru newidiadau mewn ymddygiad.



Penodwyd **Marco**

**Arkesteijn** yn Ddarlithydd newydd mewn Chwaraeon a Biomecaneg Ymarfer Corff. Mae ei ddi-ddordebau ymchwil yn cynnwys effaith techneg beicio ar ffisioleg beicio dygn a chydlynad symudiad a swyddogaeth amrywiaeth symudiad yn y maes hwn, yn benodol yng nghyd-destun patrymau gweithgaredd cyhyrau.



### ADRAN CYFRIFIADUREG

Penodwyd **Dr Chuan Lu** yn Ddarlithydd Biowybodeg yn yr Adran Cyfrifiadureg. Diddordebau ymchwil pennaf Dr Lu yw maes cymorth penderfyniadau clinigol, biowybodeg, bioleg systemau, dysgu peiriant ac ystadegau cymwysedig.



Ymunodd **Dr Georgios Gkoutos** â'r adran fel Darllynydd mewn Biowybodeg. Hyfforddwyd Dr Gkoutos yn fiocemegydd. Mae ei ymchwil cyfredol yn cymhwyso dulliau o gynrychioli, rheoli a dadansoddi gwybodaeth fiofeddygol, ffenomeg gymharol ac ymchwil trosiadol. Prif gymhwysiad yr ymchwil hwn yw ymchwiliadau i glefydau dynol.



### ADRAN HANES A HANES CYMRU

Penodwyd **Dr Alastair Kocho-Williams** yn Uwch-ddarlithydd mewn Hanes Ewropeaidd Modern yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru. Mae ymchwil Dr Kocho-Williams yn ymwneud â pholisi tramor Rwsiaidd a Sofietaidd ac yn canolbwyntio ar y corfflu diplomatig a'r Communist International. Mae ei waith presennol yn ymdrin ag ymdrechion Sofietaidd i ddadsefydlogi India Prydeinig yn y cyfnod rhwng y rhyfeloedd.



## Ymddeoliadau

### ADRAN ASTUDIAETHAU GWYBODAETH

Ymddeolodd **Dr Gayner Eyre**, a fu'n Bennaeth yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth am saith mlynedd, o waith academiaidd llawn amser ddiwedd mis Awst. Bydd Gayner yn parhau ei chyswllt â'r adran, gan arwain prosiect rhwng yr adran a Chwmni Cyhoeddi Emerald. Hoffai'r Adran ddiolch i Gayner am ei gwasanaethau a'i chyfraniad drwy gydol ei gwasanaeth hir. Mae wedi gwneud llawer i symud yr adran yn ei blaen, ac mae'r adran wedi elwa'n enfawr o'i harweinyddiaeth a'i hymroddiad.



### ADRAN CYFRIFIADUREG

Cafwyd dau ymddeoliad o'r Adran Cyfrifiadureg:

Bu **Mrs Margaret Anthony** yn gweithio fel ysgrifenyddes PhD yn yr Adran am 21 o flynyddoedd cyn ymddeol ym mis Awst 2012. Roedd Margaret yn gwbl ymroddedig i'w swydd ac roedd bob amser yn rhoi'r gofal a'r sylw gorau i fyfyrwyr.



Dechreuodd **Mr Jem Rowland** weithio yn yr adran ym 1986. Roedd gwaith Jem yn ymwneud â systemau cyfrifiadurol mewnblanedig. Roedd ei brif ymchwil mewn roboteg, offeryniaeth, prosesu signalau a dysgu peiriant ar gyfer dehongli data, ac roedd llawer o'i waith yn cynnwys cydweithio gyda ffisegwyr a biolegwyr.



Hoffai'r Adran ddiolch i Margaret a Jem am eu blynyddoedd lawer o wasanaeth gan ddymuno ymddeoliad hir a hapus i'r ddau.

## Llongyfarchiadau

### ADRAN GWYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF

Llongyfarchiadau i **Dr Jo Wallace**, Darlithydd mewn Chwaraeon a Ffisioleg Ymarfer Corff, ar enedigaeth ei merch Freya Sophie ar 1 Hydref.

### CANOLFAN CROESAWU MYFYRWYR

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Myfyrwyr, **Sam Lumb**, gan Brif Swyddog Cynorthwyol Heddlu Swydd Hampshire am ei "gweithredoedd anhunanol a phroffesiynoldeb eithriadol yn dilyn damwain ffordd".

Ar y 14eg o Fawrth 2012 roedd Sam yn gyrru bws mini a oedd yn cynnwys Tim Pêl Droed Merched y Brifysgol, pan ddaethant ar draws damwain car saith cerbyd ar yr M27 yn Swydd Hampshire. Gan ei bod wedi hyfforddi fel meddyg gan y fyddin ac yn aelod o blatŵn B Y Cymry Brenhinol 3, Sam oedd y swyddog meddygol cyntaf i gyrraedd y safle a rhoddodd gymorth meddygol i'r rhai oedd wedi eu heffeithio, gan gynnwys gyrrwr a oedd wedi ei anafu'n ddifrifol.

Derbyniodd Sam ei gwobr yn ystod seremoni yn Swydd Hampshire ar ddydd Gwener 2 Tachwedd.



## Etholiad masnach mewn pobl

Etholwyd yr **Athro Ryszard Piotrowicz** o Adran y Gyfraith a Throsedd yn aelod o Grŵp Arbenigwyr y Cyngor Ewropeaidd ar Weithredu yn erbyn y Fasnach mewn Pobl – GRETA. Mae GRETA'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth gyda Chonfensiwn Cyngor Ewrop yn erbyn y Fasnach mewn Pobl. Enwebwyd yr Athro Piotrowicz am y swydd gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol a bydd yn gwasanaethu ar y grŵp am bedair blynedd. Mae'n arbenigwr mewn cyfraith ymfudo a chyfraith ddyngarol ryngwladol, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar faterion cyfreithiol sy'n codi o'r fasnach mewn pobl.



## Pwyllgor Gwyddor Bioamrywiaeth y DU

Penodwyd **Dr Peter Dennis**, darlithydd yn IBERS, yn Ysgrifennydd Pwyllgor Gwyddor Bioamrywiaeth newydd y DG.

Ffurfiwyd y Pwyllgor i ymgysylltu â'r gymuned wyddoniaeth i ddatblygu a hyrwyddo gwyddoniaeth bioamrywiaeth fel cyfraniad i raglenni gwyddoniaeth cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r Pwyllgor newydd yn derbyn cefnogaeth Pwyllgor Ymchwil Amgylcheddol Byd-eang Cymdeithas Frenhinol Llundain, sy'n hyrwyddo ac yn cydlynu cyfranogiad y DG mewn rhaglenni ymchwil amgylcheddol byd-eang.



## Gêm rygbi goffa Sean Morley

Ymgasglodd cannoedd i wyllo gêm rygbi goffa i ddatlu bywyd Sean Morley, myfyriwr Hanes a Gwleidyddiaeth trydedd flwyddyn a chwaraewr rygbi brwd a fu farw ddechrau mis Medi.

Yn y gêm goffa, a gynhaliwyd ar Gaeau'r Ficerdy ar 19 Hydref, cafwyd ymgiprys brwd rhwng tîm rygbi Prifysgol Aberystwyth a XV Dethol Morley, ac yn y pen draw tîm y Brifysgol a orfu gyda sgôr terfynol o 19-17.



Llun o'r tîmau cyn y gêm, gyda mam a llys-dad Sean, Kerry a Gareth Dean

## Cytundeb cyhoeddi i fyfyrwr Aber

Mae **David Towsey**, myfyriwr PhD o'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol wedi llofnodi cytundeb am gyfres o dair nofel ffuglen wyddonol.

Cynigiwyd y cytundeb gyda'r cyhoeddwr Quercus ar sail nofel gyntaf David, *Your Brother's Blood*, a ddisgrifiwyd fel 'zombie western', sy'n adrodd hanes cymuned yn y dyfodol sy'n dioddef clefyd sy'n achosi i bobl fyw ar ôl iddyn nhw farw. Bydd hanes y Walkin, fel y'i gelwir, yn parhau mewn dwy nofel arall.

## Marwolaethau

### Yr Athro John Garnett (1936-2012)

Yr Athro John Garnett, cyn Bennaeth Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Dirprwy Is-Ganghellor Aberystwyth,

oedd nawfed deiliad Cadair Woodrow Wilson mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol (1981-1997). Ef oedd y darlithydd cyntaf mewn astudiaethau strategol mewn prifysgol ym Mhrydain ac awdur neu olygydd gweithiau ar wleidyddiaeth ryngwladol, strategaeth niwclear a pholisi tramor Prydain.

Roedd John yn aelod o Banel Ymgynghori'r Swyddfa Dramor ar Reoli Arfau a chynrychiolydd Prydain ar Fwrdd Ymgynghori'r Cenhedloedd Unedig ar Ddiarfog.

Bydd John yn cael ei gofio am ei garedigrwydd a'i gyfeillgarwch at gydweithwyr, ei gyfraniad i'r ddisgyblaeth a'i ddylanwad ar genedlaethau o fyfyrwyr.

I weld ysgrif goffa lawn am yr Athro John Garnett, ewch i: [www.aber.ac.uk/cy/development/alumni/obituaries/](http://www.aber.ac.uk/cy/development/alumni/obituaries/)

### Yr Athro Emeritws Ian Parrott (1916-2012)

Bu'r Athro Emeritws Ian Parrott, un o bersonoliaethau cerddorol mwyaf Aberystwyth a deiliad Cadair Cerdd Gregynog yn Aberystwyth o 1950 hyd ei ymddeoliad yn 1983. Er mai Sais ydoedd, datblygodd gariad dwfn tuag at Gymru. Ymddrwythodd ei hun ym mywyd cerddorol ei wlad fabwysiedig a chynorthwyodd i sefydlu'r Gymdeithas er Hyrwyddo Cerddoriaeth Cymru yn y 1950au.

Yn ogystal â'i gyfansoddiadau niferus, roedd Ian Parrott yn awdurdod ar gerddoriaeth Prydain gan gyhoeddi nifer o gyfrolau. Gyda'i ddealltwriaeth gerddorol athrylithgar a'i ddull idiosyncratig o addysgu, gadawodd 'Proff' argraff barhaol ar genedlaethau o fyfyrwyr cerdd sy'n ei gofio'n annwyl dros ben.

I weld ysgrif goffa lawn yr Athro Emeritws Ian Parrott, ewch i: [www.aber.ac.uk/cy/development/alumni/obituaries/](http://www.aber.ac.uk/cy/development/alumni/obituaries/)



DIGWYDDIADUR

## Arddangosfa Gwneuthurwyr Print Aberystwyth

**Dydd Llun 26 Tachwedd 2012 - dydd Gwener 8 Chwefror 2013, Yr Ysgol Gelf**

Mae Gwneuthurwyr Print Aberystwyth yn grŵp o artistiaid sy'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau argraffu yn eu gwaith gan gynnwys ysgythru, lithograffeg, argraffu sgrin, engrafu pren, torlun pren a thorlun leino. Mae 27 o Wneuthurwyr Print Aberystwyth yn arddangos yn arddangosfa'r Ysgol Gelf.

Gwefan: [www.aberystwythprintmakers.org.uk](http://www.aberystwythprintmakers.org.uk)



Gini Wade, lithograff

## 'Fifty: Fifty 30 Mlynedd o Ddarluniau a Phrintiau' gan Paul Croft RE TMP

Mae 'Fifty: Fifty 30 Mlynedd o Ddarluniau a Phrintiau' gan Paul Croft RE TMP yn arddangosfa adolygol fawr sy'n agor yn yr Amgueddfa Gelf Fodern (MOMA) ym Machynlleth ar 12 Tachwedd 2012.

Yn yr arddangosfa, sy'n dathlu pen-blwydd Pennaeth Gwaith Print yr Ysgol Gelf, Paul Croft, yn hanner cant oed, ceir dros 100 o ddarluniau a phrintiau yn rhychwantu 30 mlynedd. Mae'n cynnwys nifer o weithiau allweddol sy'n dangos datblygiad iaith bersonol, weledol sydd wedi'i hysbrydoli'n rhannol gan wrthrychau canfyddedig, bywyd llonydd a diddordeb oes yn nharddiad archeolegol ac etymolegol ffurfiau llythrennau, gwyddorau a lecsiconau.

Bydd yr arddangosfa ymlaen tan **12 Ionawr 2013**




## Canolfan y Celfyddydau ar Daith

Bydd cynhyrchiad o *The Government Inspector*, cyd-gynhyrchiad gan Canolfan y Celfyddydau â chwmmi theatr blaenllaw o'r Alban, Communicado, yn teithio i theatrau yng Nghymru a'r Alban am gyfnod o dri mis yn ystod gwanwyn 2013. Mae hyn yn bosibl diolch i gymorth cyllidol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau'r Alban.

Ysgrifennwyd *The Government Inspector* gan Nikolai Gogol ym 1835 ac mae'n ddychian clasurol ar falchder dynol sydd wedi'i osod yn Rwsia yng nghyfnod y Tsar. Yn ei dro mae'n ddoniol ac yn filain yn y modd y mae'n datgelu llygredd ymhlith pobl bwerus, a gellid credu bod y campwaith wedi'i ysgrifennu'n arbennig ar gyfer ein cyfnod ni.

Mae'r comedi tywyll cyflym, hynod ddifyr hwn yn cynnwys cast disglair a cherddoriaeth fyw Falcanaidd gan gynnwys balalaikas trydan ac organau ceg. Mae wedi'i gyfarwyddo gan Gerry Mulgrew, sylfaenydd Communicado, a'i addasu gan Adrian Mitchell, yn wreiddiol i'r National Theatre. Enillodd Gerry Wobr Beirniaid Theatr yn yr Alban yn 2009-10 am ei gynhyrchiad blaenorol o'r gwaith hwn.

Bydd y cynhyrchiad yn agor yng Nghanolfan y Celfyddydau gyda pherfformiadau'n rhedeg o 22 Chwefror hyd at 2 Mawrth 2013. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn dod â grŵp, neu am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Louise Amery ar [lla@aber.ac.uk](mailto:lla@aber.ac.uk)



## Cerddoriaeth yr Ŵyl



Mae dau gyngerdd wedi'u trefnu gan Ganolfan Gerddoriaeth y Brifysgol ar gyfer wythnosau olaf y tymor.

Bydd Philomusica, cerddorfa arobryn Prifysgol a chymuned Aberystwyth, yng Nghanolfan y Celfyddydau ddydd **Sadwrn 8 Rhagfyr** i berfformio symffoni bwerus gyntaf Sibelius. Dan ei

harweinydd, Cyfarwyddwr Cerdd PA Dr David Russell Hulme, bydd y gerddorfa hefyd yn perfformio gwaith hudolus Vaughan Williams *Lark Ascending* gyda'r feiolinydd a anwyd yn Aberystwyth Christiana Mavron, a'r darn lliwgar a soniarus *Tangazo* gan frenin 'tango nuovo' yr Ariannin, Astor Piazzolla. Mewn teyrnged i'r cyn Athro Cerddoriaeth Gregynog, Ian Parrott, a fu farw ym mis Medi, ceir perfformiad hefyd o'i waith *El Alamein*, myfyrdod ar y frwydr hollbwysig yn yr Ail Ryfel Byd yr oedd ef ei hun yn rhan ohoni.

Y dydd Llun canlynol, **10 Rhagfyr**, bydd Band Chwyth y Brifysgol dan yr arweinydd Aiden Hassan, yn ymuno â'r Undeb Gorawl a'r Cantorion Madrigal Elizabethaidd i gynnal dathliad yn Eglwys Llanbadarn. Bydd yno garolau a cherddoriaeth dymhorol wrth gwrs, ynghyd â digon o gerddoriaeth arall i godi'r ysbryd.

Bydd y ddau gyngerdd yn dechrau am 8.00pm. Ceir rhagor o fanylion ar wefan y Ganolfan Gerdd [www.aber.ac.uk/cy/music/](http://www.aber.ac.uk/cy/music/) drwy e-bost [music@aber.ac.uk](mailto:music@aber.ac.uk) a ffôn ar 01970 622685.

## Toriad y Nadolig

Bydd y Brifysgol yn cau ar gyfer y Nadolig ar ddydd **Gwener 21 Rhagfyr** ac yn ailagor ddydd **Mercher 2 Ionawr 2013**.

Cyfarchion y tymor oddi wrth y tim Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus.